Hawdd ei Ddeall

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

# Effaith coronafeirws ar wasanaethau yng Nghymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **ADSS Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cyflawni Rhaglen Grant Trawsnewid 2021/22. Effaith y Pandemig Coronafeirws ar Wasanaethau Dydd, Gofal Seibiant a Lleoliadau Arhosiad Byr**'.

**Tachwedd 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl i'w weld ar **dudalen 22**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **ADSS Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** www.adss.cymru

**E-bost:** contact@adss.cymru

**Ffôn:** 01443 742384

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad........................................................................4**


**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod...........................................8**

**Crynodeb........................................................................13**

**Beth sydd angen digwydd nesaf............................................18**

**Geiriau anodd..................................................................22**

# Cyflwyniad




Mae Coronafeirws wedi bod yr argyfwng mwyaf yn y DU ers yr Ail Ryfel Byd.




Mae wedi cael effaith mawr ar:


- gwasanaethau
- arian
- a iechyd a llesiant pawb.



Doedden ni ddim yn gwybod llawer am y feirws pan wnaeth ddechrau.



Roedd rhaid i'r llywodraeth, byrddau iechyd a chynghorau wneud cynlluniau a phenderfyniadau am wasanaethau yn gyflym.  Wedi eu seilio ar beth roedden nhw'n wybod ar y pryd.



Roedd rhaid i wasanaethau wneud newidiadau mawr i amddiffyn pobl a stopio coronafeirws rhag lledaenu. Roedd rhaid iddyn nhw stopio rhai gwasanaethau pwysig neu eu stopio dros dro.

# Am yr adroddiad yma

Mae’r adroddiad yma am yr effaith mae’r newidiadau yma wedi ei gael ar bobl sydd yn defnyddio:



- gwasanaethau dydd



- **seibiant**

Mae **seibiant** yn meddwl bod rhywun yn aros yn rhywle am arhosiad byr. Efallai i gael gorffwys neu i roi gorffwys i ofalwyr a theulu.



- a gwasanaethau aros dros nos.

**Mae pobl sydd yn defnyddio’r gwasanaethau yma yn cynnwys:**



- pobl hŷn
- pobl anabl
- a phlant gyda llawer o anghenion ychwanegol.



Mae awdurdodau lleol, byrddau iechyd a gwasanaethau wedi gorfod gwneud llawer o benderfyniadau.



Mae hyn oherwydd dydy llywodraethau Cymru a’r DU ddim bob amser wedi bod yn glir am beth i’w wneud. Yn enwedig am wasanaethau dydd a gwasanaethau **seibiant**.



Mae’r adroddiad yma yn edrych ar yr effaith mae hyn wedi ei gael. Mae rhai effeithiau yn ddrwg ond mae rhai yn dda.

**Yn yr adroddiad yma fe wnaeth Llywodraeth Cymru ofyn inni edrych ar:**




- beth mae gwasanaethau wedi ei ddysgu
- pa wahaniaeth fydd beth rydyn ni wedi ei ddysgu yn ei gael ar sut rydyn ni’n cynllunio ac yn rhedeg gwasanaethau o hyn ymlaen
- beth rydyn ni’n gallu ei wneud mewn argyfyngau yn y dyfodol.

# Amdanom ni

Ni ydy **ADSS Cymru**. **ADSS Cymru** ydy **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.**




Rydyn ni yn cynrychwioli Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.




Ni sydd wedi ysgrifennu'r adroddiad yma.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

**Y prif bethau rydyn ni wedi eu dysgu am effaith coronafeirws ar wasanaethau:**




1. Mae coronafeirws wedi cael effaith mawr ar wasanaethau.



2. Mae coronafeirws wedi cael effaith drwg iawn ar lesiant, iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl sydd yn defnyddio gwasanaethau. Mae hefyd wedi cael effaith drwg ar eu gofalwyr di-dâl a'r staff sydd yn darparu gwasanaethau.



3. Mae'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i wasanaethau wedi effeithio ar lais, dewis a rheolaeth y bobl sydd yn eu defnyddio nhw.




4. Mae'r bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd wedi dioddef llawer o straen a phryder. Mae hyn wedi meddwl nad ydyn nhw wedi gwneud y defnydd llawn o'r gefnogaeth oedd ar gael iddyn nhw.



5. Dydy rhai pobl ddim wedi cael mynediad teg i wasanaethau yn ystod coronafeirws. Mae hyn oherwydd dydy rhai pobl ddim yn cael cefnogaeth gan deulu a ffrindiau. Ac oherwydd dydy rhai pobl ddim yn gallu defnyddio cyfrifiaduron, ffonau deallus a'r rhyngrwyd.




6. Mae newidiadau a gwasanaethau yn cau wedi meddwl bod rhai gwasanaethau wedi methu dal i redeg.



7. Mae rhai effeithiau da wedi bod hefyd ar bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i wasanaethau sydd wedi eu gwneud yn well.

**Y prif bethau mae gwasanaethau wedi eu gwneud i leihau effaith drwg coronafeirws:**



8. Roedd rhaid i wasanaethau newid y ffordd roedden nhw'n gweithio. Fe wnaethon nhw feddwl am ffyrdd da, newydd o roi cefnogaeth.



9. Doedd gwasanaethau ddim yn gallu cefnogi cymaint o bobl ag arfer. Fe wnaethon nhw feddwl am ffyrdd o ddarganfod y bobl oedd fwyaf o angen cefnogaeth.



10. Fe wnaeth gwasanaethau ddefnyddio technoleg fel cyfrifiaduron a ffonau deallus a meddwl am ffyrdd newydd o weithio. Fe wnaeth hyn helpu rhai grwpiau o bobl i gael y gefnogaeth roedden nhw ei angen.



11. Fe wnaeth llawer o wasanaethau ar draws Cymru newid y ffordd roedden nhw'n darparu gwasanaethau i ateb anghenion unigolion.



12. Mae gwasanaethau ar draws Cymru wedi dweud bod eu staff wedi helpu gwasanaethau i barhau drwy fod yn gryf a bod yn barod i weithio yn wahanol.



13. Roedd angen i wasanaethau gael cyfathrebu gwell yn ystod coronafeirws. Roedd hyn yn helpu i wneud gwasanaethau yn well.



14. Roedd gwasanaethau yn ddiolchgar am y gefnogaeth roedden nhw wedi ei gael gan gyrff fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, cynghorau ac elusennau.

15. Roedd gallu gwasanaethau i barhau i ddarparu eu gwasanaeth yn cael ei effeithio gan bethau fel:



- Pa mor dda ydy'r adeiladau.




- Pa mor dda ydy eu technoleg, fel y rhyngrwyd a chyfrifiaduron.

**Pethau eraill rydyn ni wedi eu dysgu:**



16. Mae llawer o wasanaethau wedi dechrau edrych ar y newidiadau maen nhw wedi eu gwneud yn ystod coronafeirws. A'r ffyrdd newydd o weithio sydd wedi eu helpu drwy coronafeirws.



17. Mae gwasanaethau yn ei chael yn anodd i agor a rhedeg fel roeddwn nhw'n gwneud cyn coronafeirws.



18. Mae hi nawr yn fwy amlwg nag erioed o'r blaen pa mor bwysig ydy teulu, gofalwyr di-dâl a **chyfeillion cefnogol**.

> **Cyfeillion cefnogol** ydy pobl gyda phrofiadau a phroblemau tebyg sydd yn cefnogi ei gilydd.



19. Rydyn ni'n deall yn well pa mor bwysig ydy gofal **seibiant** i helpu pobl i barhau i ofalu. Mae hyn oherwydd bod gwasanaethau **seibant** wedi gorfod cau. Neu dydyn nhw ddim wedi gallu cynnig cymaint o gefnogaeth i gymaint o bobl fel ag o'r blaen .

# Crynodeb




1. Mae coronafeirws wedi cael effaith anferth ar bawb. Ond mae wedi cael  effaith hyd yn oed yn fwy ar:

   - plant sydd angen llawer o gefnogaeth ychwanegol a'u teuluoedd
   - pobl hŷn
   - pobl gyda namau corfforol
   - pobl gydag anableddau dysgu
   - pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
   - pobl gyda chyflyrau iechyd hir dymor.




2. Mae'r grwpiau yma mewn risg uwch o farw. Maen nhw hefyd wedi cael llai o gefnogaeth gofal iechyd a  chymdeithasol yn ystod coronafeirws. Mae hyn wedi cael effaith mawr ar bob rhan o fywyd, ac mae llawer wedi marw yn rhy fuan.



3. Mae gorfod aros gartref wedi effeithio ar y ffordd mae llawer o bobl yn symud o gwmpas. Mae hyn wedi gwneud cyhyrau pobl yn fwy gwan ac wedi cynyddu'r siawns o gwympo. A chael iechyd gwaeth.



4. Mae pobl gyda llai o arian wedi cael eu heffeithio'n fwy gan coronafeirws. A phobl sydd wedi methu defnyddio cyfrifiadur neu'r rhyngrwyd.



5. Roedd rhai pobl yn dweud bod cyfathrebu wedi gwella yn ystod coronafeirws. Ond, roedd rhai pobl yn dweud nad oedden nhw'n hapus gyda faint o gysylltiad roedden nhw wedi ei gael gyda gweithwyr cymdeithasol.




6. Roedd rhai pobl yn dweud bod eu hawliau dynol wedi cael eiu heffeithio gan y newidiadau oedd wedi cael eu gwneud i wasanaethau yn ystod coronafeirws



7. Rhaid inni wneud yn siŵr bod gan bobl yr hawl i ddewis a defnyddio eu llais yn llawn wrth i wasanaethau ailagor.




8. Mae coronafeirws wedi cael effaith mawr iawn ar staff gofal cymdeithasol a staff iechyd.



9. Mae coronafeirws wedi achosi llawer o straen a phryder i bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau ac i staff gwasanaethau. Mae hyn wedi bod yn ddrwg i'w iechyd meddwl ac mae'n debyg y bydd effaith hyn yn para am amser hir.



10. Mae gwasanaethau wedi gorfod darganfod a rhoi cefnogaeth i bobl sydd mwyaf mewn angen.



11. Un o'r heriau mwyaf i wasanaethau oedd problemau staffio. Er enghraifft, oherwydd salwch staff ac angen i **hunanynysu**.

> **Hunanynysu** ydy aros gartref oherwydd efallai bod gennych chi coronafeirws neu oherwydd bod gennych chi coronafeirws.



12. Roedd gan rai staff lai o oriau i weithio yn ystod coronafeirws, felly roedd rhaid iddyn nhw chwilio am swyddi eraill. Roedd gennym ni lai o staff hefyd oherwydd doedd pobl o dramor ddim yn gallu teithio yma i weithio yn ystod coronafeirws. A hefyd oherwydd **Brexit**.




**Brexit** ydy'r enw sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd ydy'r Undeb Ewropeaidd.




13. Mae rhai gwasanaethau yn dweud bod effaith coronafeirws wedi bod mor fawr fel eu bod yn meddwl na fyddan nhw yn gallu aros ar agor.



14. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi dilyn yr holl newidiadau i wasanaethau ac maen nhw wedi bod yn gryf iawn.



15. Mae rhai pobl sydd yn defnyddio gwasanaethau wedi gallu byw yn fwy annibynnol nag yr oedd gwasanaethau yn ei ddisgwyl.



16. Mae cyfathrebu hyd yn oed yn well wedi bod rhwng gwasanaethau a **chomisiynwyr**. Mae hyn wedi helpu gwasanaethau i ymdopi gyda coronafeirws.



**Comisiynwyr** ydy pobl sydd yn cynllunio, trefnu a phenderfynu pwy fydd yn rhedeg gwasanaethau ac yn talu iddyn nhw am wneud hynny.



17. Mae llawer o dechnoleg wedi cael ei ddefnyddio yn ystod coronafeirws. Rhaid inni nawr edrych ar hyn a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. A hefyd gwneud yn siŵr nad ydy e'n cael effaith drwg ar bobl.




18. Mae coronafeirws wedi ei gwneud yn amlwg bod gwasanaethau dydd, **seibiant** a gwasanaethau dros nos yn bwysig ia.

# Beth sydd angen digwydd nesaf




1. Fe ddylai Llywodraeth Cymru dderbyn bod gwasanaethau gofal dydd a **hamdden** wedi bod angen gwell arweiniad ar sut i ddelio gyda coronafeirws.



I helpu gyda hyn, rydyn ni'n meddwl y dylai pob canllaw yn y dyfodol gael ei **gyd-gynhyrchu** gyda gwasanaethau.



Mae **cyd-gynhyrchu** yn meddwl bod pawb yn rhan o bob penderfyniad wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Maen nhw'n bartneriaid cyfartal gyda llais cyfartal.



2. Fe ddylai Llywodraethy Cymru wario arian ar ddiweddaru a gwella adeiladau a chyfleusterau. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas ar ôl coronafeirws.



3. Mae angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd edrych ar yr adroddiad yma a gwneud y newidiadau sydd eu hangen.



4. Mae angen gwrando ar farn y bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau, ac mae angen gweithredu arnyn nhw.  Fe ddylai gwasanaethau wrando ar bobl ac ymateb i'w anghenion.



5. Fe ddylai **comisiynwyr** gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau edrych ar beth rydyn ni wedi ei ddarganfod am gyfathrebu. Fe ddylen nhw wneud yn siŵr bod cyfathrebu da yn parhau. A gwneud rhywbeth i wella cyfathrebu oedd dim digon da. Yn enwedig cyfathrebu gyda phobl sydd yn defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr.



6. Fe ddylai gwasanaethau a **chomisiynwyr** weithio gyda'i gilydd i edrych ar sut roedd technoleg yn cael ei ddefnyddio yn ystod coronafeirws. Fe ddylen nhw edrych i weld beth oedd wedi gweithio'n dda , beth sydd yn gallu bod yn well a sut i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Rhaid esbonio unrhyw newidiadau yn glir i bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau, staff a gofalwyr.



7. Rhaid gwerthfawrogi'r gwaith da wnaeth y staff yn ystod coronafeirws. Rhaid cefnogi staff. Rhaid i arweinwyr a rheolwyr feddwl am yr effaith mae coronafeirws efallai wedi ei gael arnyn nhw.



8. Mae angen i **gomisiynwyr** edrych i weld pa effaith mae coronafeirws wedi ei gael ar eu gwasanaethau. Fe ddylen nhw edrych ar beth sydd wedi digwydd i wasanaethau sydd wedi gorfod cau. Fe ddylen nhw gefnogi darparwyr sydd yn ei chael yn anodd i barhau i redeg.



9. Fe ddylai cynghorau lleol a byrddau iechyd weithio gyda'i gilydd gyda chyrff fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac Iechyd, Addysg a Gwelliant Cymru. Fe ddylen nhw wneud cyrsiau hyfforddi newydd fydd yn cefnogi staff i weithio mewn ffyrdd newydd.



10. Mae angen i Lywodraeth Cymru, cynghorau lleol a byrddau iechyd edrych ar yr anghyfartaledd mae pobl yn ei wynebu oherwydd:



- does ganddyn nhw ddim cyfrifiadur na rhyngrwyd. Neu dydyn nhw ddim yn gallu defnyddio'r pethau yma



- does ganddyn nhw ddim cefnogaeth gan deulu, ffrindiau neu rwydwerithiau cymdeithasol eraill.



**Fe ddylen nhw ddarganfod ffyrdd o ddod dros yr anghyfartaledd yma yn eu cynlluniau cydraddoldeb.**

# Geiriau anodd

### Brexit

Brexit ydy'r enw sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd ydy'r Undeb Ewropeaidd.

### Comisynwyr

Comisiynwyr ydy pobl sydd yn cynllunio, trefnu a phenderfynu pwy sydd yn rhedeg gwasanaethau ac yn talu iddyn nhw wneud hynny.

### Cyd-gynhyrchu

Mae cyd-gynhyrchu yn meddwl bod pawb yn rhan o bob penderfyniad wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Maen nhw'n bartneriaid cyfartal gyda llais cyfartal.

### Cyfeillion cefnogol

Cyfeillion cefnogol ydy pobl gyda phrofiadau a phroblemau tebyg sydd yn cefnogi ei gilydd.

### Hunanynysu

Hunanynysu ydy aros gartref oherwydd efallai bod gennych chi coronafeirws neu oherwydd bod gennych chi coronafeirws.

### Seibiant

Mae hyn yn meddwl rhywun yn aros yn rhywle am arhosiad byr. Efallai i gael gorffwys neu i roi gorffwys i deulu a gofalwyr.